**Tasg 2**

# Llygredd yn y môr

Dyma lun o anifail sydd wedi ei effeithio gan lygredd yn y môr.



Beth am fynd ati i greu eich cerdd eich hun yn disgrifio’r hyn yr ydych chi’n ei weld yn y llun a’r effaith y mae’r llun yn ei gael arnoch chi? Beth am ddefnyddio’r mesur rhydd, fel y gwnaeth Einir Jones. Dyma rai pethau allai fod o help wrth i chi greu cerdd:

- beth am lunio map meddwl sy’n nodi’r geiriau pwysicaf?
- meddyliwch am ansoddeiriau sy’n disgrifio eich teimladau
- peidiwch â defnyddio gormod o eiriau – dewiswch y geiriau pwysicaf
- defnyddiwch eiriadur neu thesawrws i’ch helpu i ddod o hyd i eiriau addas